

Agenda – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd	Marc Wyn Jones
Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Gorffennaf 2019	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6363
Amser: 09.15	SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
(09.15–09.30)

2 Sesiwn i Graffu ar Waith y Gweinidog – Newid Hinsawdd
(09.30–11.00) (Tudalennau 1 – 24)

Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Simon Jones, Cyfarwyddwr, Seilwaith Economaidd – Llywodraeth Cymru
Jonathan Oates, Pennaeth Twf Glân – Llywodraeth Cymru
Lucy Corfield, Pennaeth Datgarboneiddio – Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Papur – Llywodraeth Cymru

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw ar gyfer eitemau 4, 5, 6 a 7

PREIFAT (11.00–11.45)



4 Blaenraglen Waith – Trafod y dull gweithredu ar gyfer craffu ar y Bil Anifeiliaid Gwylt a Sycasau (Cymru)

(Tudalennau 25 – 33)

Dogfennau atodol:

Papur Preifat

5 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – y wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio a'r dull gweithredu ar gyfer trafod y Fframwaith

(Tudalennau 34 – 46)

Dogfennau atodol:

Papur Preifat

6 Trafod y Gwrandawriad cyn penodi ar gyfer Cadeirydd newydd Cyfoeth Naturiol Cymru

7 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiad y Pwyllgor yn Sioe Frenhinol Cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Craffu Newid yn yr Hinsawdd

1. Mae'r papur hwn yn nodi fy mlaenoriaethau a chamau gweithredu diweddar sy'n ymwneud â mynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd, cyn i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf.
2. Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019, yn egluro sut y byddwn yn bodloni ein cyllideb garbon gyntaf (2016-2020). Mae'r gyllideb garbon gyntaf yn gosod targed cyfartalog o ostyngiad o 23%, gyda'r targed ar gyfer 2020 yn ostyngiad o 27% (yn erbyn llinell sylfaen 1990).
3. Mae'r Cynllun yn nodi gweithdrefn Llywodraeth Cymru ar gyfer torri allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd mewn ffordd fydd yn dod â'r manteision ehangach mwyaf i Gymru gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach. Mae'n gosod 100 o bolisïau a chynigion, wedi eu rhannu yn ôl portffolio, sydd yn dangos ymrwymiad cyfunol y Cabinet i gyflymu'r trawsnewidiad i economi carbon isel.
4. Mae'r llwybrau sector yn y Cynllun yn nodi'r sefyllfa bresennol a sut mae polisïau a chynigion yn cyfrannu tuag at ostyngiadau mewn allyriadau sectorau. Yn gyson â sectorau Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd (CCC), mae pob pennod yn nodi'r cyfraniadau a fodelwyd sy'n ymwneud â'n targed ar gyfer 2020 a'n cyllideb garbon gyntaf. Mae'r llwybrau sector yn cynnwys Pŵer; Adeiladau; Trafnidiaeth; Diwydiant; Defnyddio Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth; Amaethyddiaeth; Gwastraff a Nwyon Ff.
5. Mae'r Cynllun hefyd yn cwmpasu ac yn nodi'r gweithredu trawsbynciol sy'n digwydd wrth i ni integreiddio datgarboneiddio ar draws polisi llywodraeth.
<https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/190321-prosperity-for-all-a-low-carbon-wales-cy.pdf>
6. Ers pasio Deddf yr Amgylchedd (Cymru), a lywiwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi gweld cynnydd ar draws nifer o feysydd polisi. Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yw ein Cynllun Cyflawni cyntaf. Dros y blynyddoedd i ddod, byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflawni ein polisïau, a fydd yn gofyn am godi'r raddfa a chynyddu cyfradd gweithredu yn unol â'n llwybrau tuag at Gymru carbon isel. Mae'r Cynllun nesaf, sydd i'w gyflawni yn 2021 dros gyfnod yr ail gyllideb garbon, yn Gynllun Cymru go iawn, wedi'i greu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid ac yn dangos y cyfraniad fydd yn angenrheidiol gan bob un ohonom.
7. Ar 29 Ebrill, cyflwynais ddatganiad o argyfwng ar yr hinsawdd ar ran Llywodraeth Cymru.
<https://llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgan-ei-bod-yn-argyfwng-ar-yr-hinsawdd>
Yn ddiweddarach yr wythnos honno, daeth datganiad tebyg gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru – y Senedd gyntaf yn y byd i wneud hynny.

8. Gobeithiwn y gall y datganiad helpu i sbarduno ton o weithredu gartref ac yn rhyngwladol, o'n cymunedau, ein busnesau a'n sefydliadau ni ein hunain i seneddau a llywodraethau ledled y byd.
9. Rydym eisoes yn arwain y byd ar dargedau hinsawdd a gweithredu ar yr hinsawdd. Yn ddiweddar, dywedodd yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol fod y DU wedi arwain y ffordd wrth drawsnewid i economi carbon isel. Mae Cymru yn chwarae ei rhan yn y llwyddiant hwn. Mae data a gyhoeddwyd ar 11 Mehefin yn dangos bod allyriadau Cymru yn 2017 25% yn is na 1990, ac yn welliant sylweddol ar 2016.
<https://webstore.iea.org/energy-policies-of-iea-countries-united-kingdom-2019-review>
10. Nid ydym yn hunanfodlon ac rydym yn cymryd y datganiad argyfwng o ddifrif. Rwy'n trafod gyda chydweithwyr yn y Cabinet ynghylch pa gamau yn y Cynllun y gellir eu hymestyn a'u cyflwyno ynghynt.
11. Ers y datganiad, rwyf wedi derbyn yn ffurfiol argymhelliad y CCC i gynyddu targed gostwng allyriadau Cymru i 95% erbyn 2050, yn erbyn llinell sylfaen 1990. Fodd bynnag, nid 95% yw terfyn ein huchelgais. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio sut y gallwn osod targed sero net yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu mai ni yw'r unig Lywodraeth yn y DU sy'n ceisio mynd y tu hwnt i gyngor CCC.
<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-mateb-i-adroddiad-sero-net-y-pwyllgor-ar-newid-hinsawdd>
12. Eisoes, roedd gan Lywodraeth Cymru darged wedi ei rhwymo mewn cyfraith i ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o 'o leiaf 80%' yn 2050, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r cyngor gan y CCC yn ei gwneud yn glir bod y cynnydd o 80% i 95% yn newid sylweddol ac yn gofyn am newid difrifol mewn ymateb polisi er mwyn ei gyflawni.
13. Mae mabwysiadu targed o 95% ar gyfer 2050 yn golygu edrych eto ar y targedau interim a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr. Rwyf wedi holi i'r CCC i ddarparu tystiolaethi lywio'r newidiadau yma a byddaf yn cyflwyno deddfwriaeth flwyddyn nesaf i ddiwygio'r targedau ar gyfer 2030 a 2040 fel y bo'n addas. Ar yr un pryd, byddaf yn cyflwyno rheoliadau i nodi ein trydedd gyllideb garbon a'r cyllidebau presennol, yn ôl yr angen.
14. Rwy'n croesawu penderfyniad dilynol Llywodraeth y DU i ddeddfu ar gyfer targed sero net ar gyfer y DU gyfan. Daw cryn dipyn o'n hallyriadau o ffynonellau mawr yn y sectorau ynni a diwydiant, lle gall newidiadau mewn cynhyrchu effeithio ar ein hallyriadau. Mae gan Lywodraeth y DU rôl hollbwysig i'w chwarae wrth ddatgarboneiddio'r sectorau yma. Yn y sector Pŵer, er enghraifft, lle mae'r prif sbardunau yn dal gyda Llywodraeth y DU, gostyngodd gollyngiadau'r DU o 60% rhwng 1990 a 2016 ond cynyddodd allyriadau Cymru o 44%.
15. Byddai cyflawni'r targedau hyn yn golygu y byddai cyfraniad y DU gyfan i gynhesu byd-eang yn dod i ben o fewn 30 mlynedd ac yn cyflawni ein hymrwymadau o dan Gytundeb Paris. Credwn y gall cymryd camau cynnar, pendant fel hyn helpu i ysbrydoli eraill i gymryd y camau angenrheidiol i osgoi effeithiau trychinebus Newid yn yr Hinsawdd.

16. Byddwn yn sefydlu grŵp cynghori teg ar yr hinsawdd i archwilio sut mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas a sut y gallai'r trawsnewidiad o economi tanwydd ffosil i ddyfodol carbon isel effeithio ar ddiwydiannau a chymunedau Cymru, i ddatblygu mesurau i ddatgarboneiddio ar y cyd ac arwain at economi carbon isel sy'n deg i bawb.
17. Mae cyngor CCC yn glir ynglŷn â'r angen am gydweithio agosach rhwng y Llywodraethau yn y DU. Rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau bod costau a buddion symud i sero net yn cael eu rhannu'n deg ledled y DU, gan gynnwys cymorth i weithwyr a defnyddwyr agored i niwed. Rwy'n disgwyl i Lywodraeth Cymru gymryd rhan yn adolygiad Trysorlys EM o gostau a buddion a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
18. Mae datgarboneiddio yn cynnig cyfleoedd aruthrol i greu economi hyfyw a chymdeithasol deg. Rhaid i ni wneud gwahaniaeth a helpu i greu cymdeithas yma yng Nghymru sy'n sicrhau llesiant ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth i ni ddatgarboneiddio.
19. Rydym wedi gosod targedau ac wedi darparu cymorth ychwanegol ar gyfer ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio'r sector cyhoeddus. Rydym wedi profi modelau tai newydd ac rydym yn casglu tystiolaeth ar y mathau o gamau effeithlonrwydd ynni sydd eu hangen i ddatgarboneiddio ein stoc dai bresennol.
20. Rydym yn buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus, teithio llesol a phwyntiau gwefru trydan er mwyn trawsnewid i system drafnidiaeth carbon isel sy'n hygyrch i bawb. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn plannu coed a mawndir, gan gydnabod y buddion llesiant a ddarperir ganddynt. Rydym yn llunio ein polisi rheoli tir ar gyfer y cyfnod sy'n dilyn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
21. Fodd bynnag, mae her Newid yn yr Hinsawdd yn gofyn i bawb weithredu. Er mwyn cyrraedd ein targedau, mae angen cydweithredu ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol a chynnwys y gymdeithas gyfan. Ni fydd gweithredu gan lywodraeth yn unig yn ddigon. Rwyf wedi fy nghalonogi gan yr arweinyddiaeth a ddangoswyd gan fusnesau wrth groesawu'r targedau newydd a chan lawer o gynghorau ledled Cymru sydd wedi datgan argyfwng yn yr hinsawdd. Bydd ein Cynhadledd Newid yn yr Hinsawdd ym mis Hydref yn garreg filltir hollbwysig wrth benderfynu ar y gweithredu sydd ei angen gan bob rhan o gymdeithas.

Lesley Griffiths AC

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Mehefin 2019

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon